

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Rheolwr y Gymraeg

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024/25

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025



Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol GIG Cymru, gan gynnwys Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru, ac rydym yn cynnal Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Caring

We are always kind, supportive, approachable and show compassion to all.



Respectful

We seek to understand other people's perspectives. We are always open and transparent.



Accountable

We always take personal responsibility for what we do and how we do it.



Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn wasanaeth arbenigol ar gyfer triniaeth, addysgu, ymchwil a datblygu ar gyfer gwasanaethau oncoleg trydyddol nad ydynt yn llawfeddygol i gleifion o bob rhan o dde-ddwyrain Cymru ac ymhellach.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn darparu gwasanaethau cenedlaethol hanfodol ac arbenigol iawn gan gynnwys casglu a chynhyrchu gwaed a chydannau gwaed, gwasanaethau diagnostig arbenigol a sgrinio cynenedigol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau trawsblannu ar gyfer organau solet a chelloedd bonyn ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn asesu technolegau iechyd a gofal nad ydynt yn feddyginiaethau ac yn cynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar eu defnydd yng Nghymru.

Mae Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i GIG Cymru.

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

Cynnwys

Rhagair.....	2
Croeso'r Prif Weithredwr.....	3
Dywedon ni a gwnaethon ni.....	4
Recriwtio.....	8
Ein Sefydliadau a Letyr.....	12
Dyfodol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.....	14

Rhagair

Mae ein hadroddiad blynyddol yn cefnogi nod diwylliannol a Llywodraethol cryf i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg presennol ond hefyd, i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy amcanion strategaeth 2050.

Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi cael y dasg o gyflawni Safonau'r Gymraeg ers 2018, ac rydym wedi cynyddu ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu nid yn unig ein cydymffurfiaeth reoleiddiol ond hefyd, ein hamcanion i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar draws yr Ymddiriedolaeth a hwyluso amgylchedd dwyieithog i'n staff.

Rydym wedi datblygu set newydd o werthoedd sefydliadol a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg a Diwylliant Cymru wrth wraidd y gwerthoedd hyn. Rydym wedi ymgorffori'r gwerthoedd hyn ac wedi darparu hyfforddiant trwy raglen ymsefydlu newydd, sef 'Croeso', sy'n rhoi cyfle i staff deimlo cysylltiad cryfach â'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan agor fforymau trafod sydd â'r nod o ymgysylltu staff â diwylliant Cymru. Byddwn yn parhau i gryfhau hyn wrth i ni symud ymlaen i 2025/26.

Mae'r grwpiau Cymraeg yn ein His-adrannau yn mynd o nerth i nerth ac yn rhoi arweiniad i staff ac yn cefnogi newidiadau allweddol sydd eu hangen i symud yr agenda hwn ymlaen mewn ffordd gadarnhaol. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Gwasanaeth Canser yn gweithio gyda staff i wreiddio newid diwylliant cadarnhaol. Fel rhan o'r newid diwylliant hwn, mae'r cysyniad Cynnig Rhagweithiol wedi'i wreiddio'n gadarn a bydd yn parhau i fod yn ffocws i ni.

Uchafbwyntiau 2024-25...

96% o'r staff wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg

15 o sesiynau hyfforddi arbennig i staff derbynfa'r Gwasanaeth Gwaed

5 cyfarfod o Grŵp Llywio'r Gymraeg

1+miliwn o eiriau wedi eu cyfieithu

2 gyfarfod hyfforddiant Cymraeg i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

12 o Grwpiau Adrannol y Gymraeg

Croeso'r Prif Weithredwr

Rwy'n cefnogi gwaith yr Ymddiriedolaeth yn llwyr o ran ymgysylltu â'r Gymraeg a'i defnyddio, ac rwyf wedi bod yn ceisio dysgu rhywfaint o Gymraeg fy hun ers i mi ddechrau yn fy rôl ym mis Rhagfyr. Mae ein defnydd o gyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus ein bwrdd a'r cyfraniad y mae ein Haelodau Annibynnol yn ei wneud i'n dwyn i gyfrif yn y Gymraeg wedi creu argraff arnaf. Fel y gwyddom, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer yr iaith, ac yn sicrhau, fel sefydliad cyhoeddus, ein bod yn parhau i ymdrechu am wasanaeth gwirioneddol ddwyieithog.

Dyma fy Adroddiad Blynyddol cyntaf fel Prif Weithredwr, ac rwyf wedi fy nghalonogi gan y pwysigrwydd a roddwn i'n ddarpariaeth ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol ym mhopeth a wnawn. Mae gan ein staff fynediad at gymorth dwyieithog, fel y dylai fod, ac rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella eu galluoedd i gefnogi ein gwasanaethau.

Mae ein hymrwymiad yn mynd y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol. Mae'n ymwneud â'r parch a gynigiwn i hawliau siaradwyr Cymraeg, boed hynny drwy ein gwasanaethau, ein mentrau gweithlu neu ein cyfathrebu. Ein nod yw darparu amgylchedd sy'n weladwy ac yn hygyrch.

Rwy'n hyderus y gallwn gyflawni ein hamcanion a'n huchelgeisiau ac wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'n holl anghenion mynediad eraill.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar ein cynlluniau clinigol a'n gallu i gyfathrebu â chleifion a'n gilydd yn y Gymraeg, ac rwy'n hyderus y gallwn greu gwasanaeth mwy cyfartal i'n cleifion a'n rhoddwyr.



David Donegan
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre



Dywedon ni a gwnaethon ni....

Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf, mae ein prif bryderon wedi cael sylw... rydym wedi datblygu cynllun Cleifion Mewnol gyda mwy o ffocws, cynllun ymgynghori Clinigol wedi'i dargedu mwy, ac rydym yn parhau i herio ein dealltwriaeth fewnol o'r anghenion am asesiadau dwyieithog fel rhan o'r broses recriwtio.

Cleifion mewnol

Mae ein cynllun yn darparu ffocws ar gyfer cleifion mewnol, gan fod yn glir ynghylch yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn wrth dreulio amser yng Ngwasanaethau Canser Felindre. Yn ei symlrwydd, mae'n darparu llwybr i gleifion gan roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt os bydd angen gwybodaeth neu gyfathrebu dwyieithog arnynt. Mae ein systemau digidol yn ein galluogi i gofnodi eu hanghenion ac yna, caiff hyn ei drosi'n gamau gweithredu os bydd angen i glaf ddefnyddio'r Gymraeg.

Ymgynghoriadau Clinigol

Mae gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a mynychu'r digwyddiadau trafod agored wedi ein galluogi i ganolbwyntio ein cynllun (safon 110)

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i hamcanion ar gyfer cydweithio, ac rydym wedi cael ein calonogi gan y gefnogaeth a'r ymagwedd agored at y nod hwn. Mae'n amlwg gweld sut y gall ffordd gyd-reoleiddio o weithio wella dealltwriaeth a pherfformiad, gan drosi'n gefnogaeth well i anghenion dwyieithog ein cleifion a'n rhoddwyr. Mae canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni a chyflawni'r nodau hyn wrth gynnal trafodaethau agored ar feysydd anhawster yn hyrwyddo perthynas iach â swyddfa'r Comisiynydd.

Byddwn nawr yn ymgynghori â'r timau ac aelodau perthnasol o staff cyfrifol i gadarnhau ymarferoldeb cynllun o'r fath. Dyma fydd ein ffocws ar gyfer 2025/26.

Cydymffurfedd

Mae Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith Mwy na Geiriau yn parhau i lywio ein gwaith cydymffurfio, gan roi ffocws a gallu cryfach inni i wreiddio ein darpariaeth Cymraeg. Rydym wedi gweld cynnydd yn ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' oherwydd cyfathrebu a hyfforddiant staff.

Fel Ymddiriedolaeth rydym bob amser wedi bod yn gadarn bod cefnogaeth iaith i'n cleifion a'n rhoddwyr a'n staff o'r pwysigrwydd mwyaf a'i bod yn cael ei hategu gan y fframweithiau cyfreithiol ledled Cymru. Mae deddfwriaeth wedi codi ymwybyddiaeth o'r anghenion hyn, a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n cydymffurfiaeth.

Cefndir

Ers 2018, rydym wedi bod yn datblygu ein gweithlu a'n gwasanaethau yn erbyn Safonau'r Gymraeg. Rydym yn gwbl ymwybodol bod rhai o'r Safonau yn heriol a byddant yn parhau i fod yn anodd i ni yng ngoleuni'r anawsterau y mae'r GIG yn eu hwynebu yn y gweithlu. Fodd bynnag rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod popeth a wnawn yn ystyried y goblygiadau y mae'r gweithlu Cymraeg yn eu hwynebu er mwyn cynyddu ein gallu i ddarparu presenoldeb dwyieithog cryf.

Rydym yn parhau i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol eraill ac rydym yn aelod gweithredol o'r grŵp Cymru Gyfan, sy'n canolbwyntio ar rannu arferion gorau ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng ngrŵp Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar y fframwaith 'Mwy na Geiriau'. Mae'r holl waith hwn yn bwydo'n gadarnhaol i'n mentrau i gefnogi Safonau'r Gymraeg.

Sefyllfa

Yn yr adran hon, rydym wedi meintoli ein sefyllfa bresennol o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Ers mis Tachwedd 2018, dim ond dau Ymchwiliad ffurfiol y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u derbyn yn erbyn ein gallu i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cafodd un ei gau bron yn syth ac mae'r llall wedi'i dderbyn yn swyddogol ac rydym yn aros am ymateb. Mae'r gwaith a wnaed yn erbyn yr Ymchwiliad yn cael ei adlewyrchu yng nghod lliw ein cyflawniadau.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gwyrdd – Lefel uchel o sicrwydd

Melyn - Canolig i uchel

Oren – Lefel isel i ganolig o sicrwydd

Safonau	Sgôr sicrwydd	
	23/24	24/25
Gohebiaeth (1, 4, 5, 6, 7)		
Prif rifau gwasanaethau ffôn (8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16)		
Rhifau uniongyrchol gwasanaethau ffôn (16,17,18, 19)		
Systemau ffôn awtomataidd (20)		
Cyfarfodydd (21, 22, 22A, 22CH)		
Cleifion Mewnol (23-25)		
Cyfarfodydd Cyhoeddus (26, 27, 28, 29)		
Arddangos deunydd ysgrifenedig mewn cyfarfodydd cyhoeddus (30)		
Digwyddiad Cyhoeddus (31, 32, 33, 34)		
Ffurflenni i'w llenwi gan unigolion (36)		
Dogfennau sydd ar gael i unigolion (37)		
Dogfennau a Ffurflenni (38)		
Gwefannau (39, 40, 41, 42, 43)		
Apiau (sydd yn cael eu defnyddio ar ddyfeisiau electronig) (44)		
Cyfrngau cymdeithasol (45, 46)		
Arwyddion mewn manau sy'n hygyrch i'r cyhoedd (47, 48, 49)		
Gwasanaethau derbynfa (50, 52, 53)		
Ceisiadau a dogfennau ar gyfer grantiau (54, 55, 56)		
Gwahoddiadau i Dendro (57, 58, 59)		
Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg (60-61)		
Hunaniaeth Gorfforaethol (62)		
Systemau Annerch Cyhoeddus (64)		

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo'n llwyr i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac eleni, rydym wedi cwblhau nifer o sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer staff rheng flaen sy'n gyfrifol am wasanaethau derbynfa. Roedd hyn mewn ymateb uniongyrchol i ymchwiliad ffurfiol ac mae wedi rhoi cyfle inni

hyrwyddo ac addysgu staff ymhellach ynghylch anghenion a disgwyliadau Cleifion a Rhoddwyr sy'n Siarad Cymraeg.

Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol

Mae ein platfformau Cyfryngau Cymdeithasol Dwyieithog yn mynd o nerth i nerth. Polisi'r Ymddiriedolaeth yw sicrhau dull dwyieithog o bostio fideos a chynnwys ac rydym yn annog ymateb gan siaradwyr Cymraeg ar ein Gwefannau.

Mae ymweliadau â'r gwefannau dros y deuddeg mis diwethaf yn dangos cysylltiad clir â'r cyhoedd.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - 126,923 o ymweliadau â'r wefan Saesneg a 198 o ymweliadau â'r wefan Gymraeg.

Mae ymweliadau Gwasanaethau Gwaed Cymru yn 316,771 ac o'r rheini, mae 2746 yn y Gymraeg sef 0.86% o'r edrychiadau.

Safonau Gweithredu

Gwyrdd – Lefel uchel o sicrwydd

Melyn - Canolig i uchel

Oren – Lefel isel i ganolig o sicrwydd

Safonau	Assurance rating	
	23/24	24/25
Polisi Iaith Gymraeg – Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (79)		
Cytundeb Cyflogaeth (80)		
Dogfennau yn ymwneud â chyflogi gweithwyr (81)		
Polisiau yn ymwneud â chyflogaeth a'r gweithle (82)		
Cwynion gan staff a materion disgyblu (83 – 88)		
Meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer sillafu a gramadeg a rhyngwynebau (89)		
Tudalennau mewnwyd (90 - 95)		
Asesu sgiliau iaith Gymraeg staff (96)		
Hyfforddiant i staff mewn meysydd allweddol (97 a 98)		
Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg (99 – 103)		
Llofnodion e-bost, geiriad a logo Cymraeg (104)		
Bathodynau Cymraeg a brandio ar gyfer staff (105)		
Asesu sgiliau, hysbysebu, recriwtio (106 – 109)		
Datblygu a Chyhoeddi Cynllun Ymgynghori Clinigol (110)		
Arwyddion a hysbysiadau (113)		
Cyhoeddiadau wedi'u recordio (114)		

Eleni, fe wnaethom lansio tudalen fewnrwyd Cymraeg Gwaed Cymru, gan roi mwy o ffocws i'r adran ar y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud i gefnogi'r Gymraeg, a chyfle i staff ei gweld o safbwynt Gwaed Cymru. Mae'r wefan yn adnodd rhagorol i'r is-adran, ac mae ganddi ei brand ei hun.

Y 'Cynnig Gweithredol' fu prif ffocws y gwasanaeth eleni. Maen nhw wedi sefydlu perthynas yn rhagweithiol â Menter Rhondda Cynon Taf, ac maen nhw bellach yn cynnal grŵp trafod Cymraeg

unwaith yr wythnos. Gall staff sy'n dysgu neu sydd angen codi eu hyder yn yr iaith fynychu a chael trafodaethau anffurfiol. Darperir gwersi hefyd i staff y dderbynfa gyda phynciau penodol wedi'u cytuno i gyd-fynd â'u meysydd gwaith a gwella eu gallu i ateb y ffôn yn ddwyieithog.

Mae gweithgorau'r isadrannau yn parhau i hyrwyddo a rhoi canllawiau i staff ar ofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae strwythur llywodraethu Gwasanaethau Canser Felindre wedi newid i sicrhau bod blaenoriaethau'r Gymraeg yn bwydo i'r prif grŵp cynllunio yn y ganolfan. Amlygu anghenion y gwasanaeth i uwch reolwyr a sicrhau dull cydlynol o ymgorffori'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.



Gwobrau Rhagoriaeth Staff



Cynhaliwyd gwobrau eleni yng Ngholeg y Cymoedd, ac aeth gwobr y Gymraeg am hyrwyddo a chefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg i grŵp Iaith Gymraeg Gwasanaeth Gwaed Cymru, am eu gwaith rhagweithiol o amgylch hyrwyddo'r Gymraeg mewn gwasanaethau i staff a rhoddwyr.

Uchafbwyntiau gwaith y flwyddyn gyfredol fyddai nodi'r systemau TG cyfredol sydd angen eu datblygu i gefnogi'r Gymraeg, hyrwyddo digwyddiadau blynyddol y Gymraeg, hyfforddi staff a gwneud cysylltiadau ag asiantaethau cymorth allanol i agor gweithio mewn partneriaeth.


Mae'r grŵp yn weledol iawn ar draws y gwasanaeth, ac mae ganddyn nhw gynllun gweithredu clir sy'n cefnogi Safonau'r Gymraeg ac ymrwymadau ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Cyfieithu

Mae ein tîm cyfieithu yn parhau i fynd o nerth i nerth, gan symleiddio'r broses gyfieithu a darparu cyfieithiadau i fodloni gofynion y gwasanaeth. Rydym wedi gwneud defnydd sylweddol o feddalwedd cof cyfieithu, gan roi gwell dealltwriaeth inni o ddogfennau wedi'u cyfieithu sydd hefyd, yn arbed amser yn y broses.

Bydd ffigurau cyfieithu yn gostwng, gan fod y broses bellach yn adnabod cyfieithiadau o'r gorffennol ac felly, mae llawer llai o bethau angen eu cyfieithu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r system yn 2025/26.

Mae staff cyfieithu hefyd wedi gallu manteisio ar hyfforddiant cyfieithu cenedlaethol, gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â dulliau cyfieithu modern. Mae'r buddsoddiad hwn yn profi i fod yn gadarnhaol iawn i'r broses gyfieithu.



Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd Cyhoeddus ein Bwrdd, ac mae ein holl agendâu a chofnodion ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ymatebion i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu darparu’n Gymraeg, os oes angen hynny, ac mae gan bob un o’n negeseuon sydd wedi cael eu hanfon lwyfannau dwyieithog, ac maen nhw’n cael eu cyfieithu mewn pryd i’w cyhoeddi.

Recriwtio

Mae gwybod sgiliau ein gweithlu yn ein galluogi i gynllunio yn unol â hynny ar gyfer swyddi gwag. Mae'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â phob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, yn defnyddio'r Cofnod Staff Electronig i gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg. Eleni rydym wedi ymgorffori'r angen i gofnodi'r sgiliau hyn ac ar hyn o bryd, mae gennym gyfradd cydymffurfio o dros 95%. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i nodi meysydd ar gyfer recriwtio ac anghenion iaith ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Eleni, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r adrannau i ymgorffori dealltwriaeth ddyfnach o ofynion iaith, a byddwn yn parhau i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r broses hon, trwy ddarparu canllawiau a chefnogaeth i reolwyr recriwtio a dysgu gan ein partneriaid ar draws y GIG.

Gan weithio gyda'r systemau recriwtio digidol sydd ar gael, byddwn nawr yn gwreiddio'r broses asesu iaith yn y systemau hyn. Bydd yn golygu y bydd asesu anghenion iaith yn rhan annatod o'r broses. Bydd cefnogi rheolwyr recriwtio i wneud y penderfyniadau hyn yn hanfodol i wneud y broses hon yn llwyddiannus.

Ystadegau recriwtio 2024/25

Gwasanaeth Gwaed Cymru 2024-2025

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:	
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	110
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd.	3
Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	2
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025	115

Canolfan Ganser Felindre 2024-2025

Total number of vacancies advertised as:	
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:	1
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	315
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	0
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	3
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	319

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2024-2025

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:	
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	2
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	172
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	9
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025	183

Y swyddi a hysbysebwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol oedd derbynnydd a swyddog cymorth. Staff derbynfa oedd y swyddi a hysbysebwyd fel Parodrwydd i Ddysgu.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi mandadu bod rhaid hysbysebu pob swydd derbynfa fel un 'Hanfodol'. Os bydd problem recriwtio gyda hyn, byddwn yn ail-hysbysebu fel 'Parodrwydd i Ddysgu', gan ddangos ymrwymiad gwirioneddol i swyddi cyfathrebu rheng flaen i gefnogi ein hanghenion Cleifion a Rhoddwyr.

Sgiliau Iaith Gyfredol

Y Gymraeg yn yr Ymddiriedolaeth (Gwrando/Siarad) (31 Mawrth 2025)

Cymraeg (Gwrando/Siarad)	Nifer	Nifer y bobl	%
0 - Dim Sgiliau	1320	1913	69.00%
1 - Mynediad	250	1913	13.07%
2 - Sylfaen	79	1913	4.13%
3 - Canolradd	52	1913	2.72%
4 - Uwch	60	1913	3.14%
5 - Hyfedredd	68	1913	3.55%
Gallu a Nodwyd	1829	1913	95.61%
Heb Nodi	84	1913	4.39%

Pryderon a Chwynion

Mae pryderon ynghylch ein gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, eleni rydym wedi derbyn dau gŵyn swyddogol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn ymarfer siopwr dirgel a gynhaliwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, daeth yn amlwg nad oedd dwy elfen o'n darpariaeth bresennol yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg, ac yn darparu gwasanaeth llai na chyfartal i siaradwyr Cymraeg.



Roedd un yn canolbwyntio ar ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, ac roedd un yn canolbwyntio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau ffôn dwyieithog yn y brif ganolfan yng Nghanolfan Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.


Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â'r materion hyn, dan arweiniad Cyfarwyddwr y Gweithlu ac yn dilyn proses drylwyr o nodi ble roedd y risg i wasanaethau fwyaf, dechreuodd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Gweithiodd y timau Cyfathrebu yn ddiwyd i ddatrys y materion sy'n berthnasol i wybodaeth allanol a gwneud y Gymraeg yn hawdd ei gweld i ddefnyddwyr. Mae gwelededd a'r angen i amlygu'r gwasanaeth yn ganolog i lawer o Safonau'r Gymraeg.

Newidiwyd prosesau i gefnogi angen cleifion a rhoddwyr am wybodaeth ddwyieithog mewn fformat clir a hygyrch. Wrth symud ymlaen, bydd gwelededd yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

Fe wnaethom gydnabod yr angen i gael archwiliad clir a manwl o'r systemau teleffoni presennol yng Nghanolfan Canser Felindre, a gwnaed newidiadau i negeseuon i gleifion a galwadau mewnol. Rydym yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gefnogi anghenion iaith galwyr, a dyma fydd ein ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o ffordd i fynd o hyd i ddarparu gwasanaeth prif linell gwbl ddwyieithog yng Nghanolfan Canser Felindre.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi recriwtio'n llwyddiannus ac wedi hyfforddi ac yn parhau i hyfforddi staff presennol i ddarparu gwasanaeth dros y ffôn yn Gymraeg. Mae'r ymchwiliadau wedi rhoi ffocws inni ganolbwyntio ac archwilio'n llawn ein prosesau ar gyfer gwasanaethau teleffoni rheng flaen.



Rydym yn parhau i fonitro'r pryderon yn drylwyr ac yn cynnal ymarferion 'siopwr dirgel', gan roi adborth ar ganlyniadau i adrannau, a sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi'n barhaus gyda staff. Mae bod yn ymwybodol bod angen cefnogaeth barhaus ar staff i sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes hwn yn ein cynorthwyo i flaengynllunio o ran sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu.

Llunio Polisi

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddarau ei Pholisi Iaith Gymraeg eleni i adlewyrchu'r hinsawdd wleidyddol bresennol. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp polisi newydd gyda'r nod o gytuno ar bolisiau newydd a rhai wedi'u diweddarau. Mae hyn yn eistedd ochr yn ochr â gwaith y grŵp asesu effaith, ac mae gan y Gymraeg rôl ragweithiol i'w chwarae wrth sicrhau bod polisiau'n adlewyrchu anghenion siaradwyr Cymraeg a diwylliant Cymru ac yn adlewyrchu'r sgôr CMG wedi'i diweddarau i Safonau 76 a 77.

Safonau Llunio Polisi

Gwyrdd – Lefel uchel o sicrwydd
Melyn - Canolig i uchel
Oren – Lefel isel i ganolig o sicrwydd

Safonau	Sgôr sicrwydd	
	23/24	24/25
Llunio polisi newydd – cyfleoedd a bygythiadau i'r iaith (69)		
Polisi newydd neu ddiwygiedig – effeithiau cadarnhaol ar yr iaith (70)		
Polisi newydd neu ddiwygiedig – cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith (71)		
Cyhoeddi polisi neu ddogfen gysylltiedig (72)		
Cyhoeddi dogfen ymgynghori a cheisio barn ar lunio polisi (73)		
Ceisio barn ar ddogfen ymgynghori gyhoeddedig (74)		
Cymryd rhan mewn ymchwil i gynorthwyo penderfyniad polisi ac ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg (75)		
Comisiynu ymchwil i gynorthwyo â phenderfyniad polisi (76)		
Comisiynu ymchwil i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau neu gyfleoedd andwyol i'r Gymraeg (77)		

Mwy na Geiriau

Mae'r Fframwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ategu Safonau'r Gymraeg ac mae ei gamau gweithredu yn cefnogi popeth a wnawn yn yr Ymddiriedolaeth.

Y themâu mwyaf perthnasol yw:

Thema 2 - Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol

Eleni, fel yr awgrymwyd yn y Fframwaith, rydym wedi datblygu proses ymsefydlu sy'n gallu darparu lle ac amser i staff drafod nodau ac amcanion y Cynnig Gweithredol, herio unrhyw negyddiaeth ynghylch gwasanaeth dwyieithog, a bod yn ymwybodol o bopeth sydd gan yr Ymddiriedolaeth i gefnogi staff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Rydym yn hyrwyddo pob math o hyfforddiant ar-lein yn rhagweithiol ac yn trafod gyda'r sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru, 'Iaith Gwaith', i fynychu cyrsiau hyfforddi a chefnogol 'Croeso i'r Gymraeg'.

Thema 3 - Rhannu arferion gorau a dull galluogi

Rydym yn parhau i fod yn aelod gweithredol o grŵp Rheolwyr y Gymraeg cenedlaethol, a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn grŵp traws-sefydliadol sy'n edrych ar y Gymraeg, sydd yn cael ei hwyluso gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Rhannu arferion gorau yw nod y ddau grŵp.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi manteisio ar yr hyfforddiant a gynigir gan y sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Choleg Gwent, eleni, i ddarparu hyfforddiant i staff ar dair lefel wahanol. Dyma fydd ein ffocws yn 2025/26 a bydd yn bwydo i'n hymateb i Lywodraeth Cymru ar y meysydd penodol o fewn y fframwaith.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ei chydymffurfiaeth â'r fframwaith.

Ein Sefydliadau a Letyir

(Dyma gipolwg ar gydymffurfiaeth a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefannau'r sefydliad a letyir)

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Arhosodd y rhan fwyaf o'r safonau'r un fath â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd rhai amrywiadau bach. Dyma ddadansoddiad o'r amrywiadau ar gyfer 2024/25 o'u cymharu â 2023/24:

- Rhifau uniongyrchol gwasanaethau ffôn (16,17,18, 19)

O archwiliadau siopwyr cudd o rifau ffôn sy'n berthnasol i'r safonau hyn, bu cynnydd yn ymwybyddiaeth staff i ateb galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gwefannau (39, 40, 41, 42, 43)

Cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr o'n gwefan a'n tudalennau ym mis Chwefror 2025. Gwelsom ostyngiad bach mewn cydymffurfedd ar rai o'n tudalennau gwe. Er bod tudalennau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, nodwyd y problemau canlynol ar ychydig o dudalennau:

- daethpwyd o hyd i ddogfennau ar y wefan nad oeddent wedi cael eu hasesu i fod ar gael yn y Gymraeg,
- dim ond yn Saesneg yr oedd fideos a lanlwythwyd ar ychydig o dudalennau ar gael.
- Dim ond i dudalennau Saesneg yr oedd dolenni i dudalennau gwe eraill yn GIG Cymru neu sefydliadau cyhoeddus eraill yn arwain, er bod tudalennau Cymraeg y gellid cysylltu â nhw.

Mae'r mater wedi'i gyfleu i'r timau perthnasol i fynd i'r afael â'r materion hyn a'u cywiro fel darn o waith i'w wneud yn ystod chwarteri 1 a 2 o 2025/26.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Nodwyd problemau tebyg ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn bennaf dim ond yn Saesneg y crëwyd fideos. Yr amserlen i fynd i'r afael â hyn fydd rhan gyntaf 2025/26 hefyd.

Rydym yn adolygu ein protocolau sydd ar gael i bob aelod o staff a gyflogir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn flynyddol, i sicrhau bod ein protocolau a'n prosesau yn gyraeddadwy ar draws pob maes darparu gwasanaeth. Mae pob protocol ar gael ar ein tudalen gymorth iaith Gymraeg fewnol.

Mae PCGC yn hyrwyddo ein bod yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ar ein gwefannau ac mewn e-byst a phenawdau llythyrau corfforaethol.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar blatfformau rhithwir, fel Microsoft TEAMS a Zoom. Mae gennym brotocol ynghylch sut y gellir hwyluso cyfarfodydd yn y ddwy iaith, ac mae

Uned y Gymraeg yn cefnogi pob isadran a maes cyflenwi gwasanaethau i ddod o hyd i gyfieithwyr ar y pryd yn ôl yr angen.

Mae agendâu a chofnodion Pwyllgor Partneriaeth y Gwasanaethau a Rennir ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Nid yw'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn agored i'r cyhoedd. Fodd bynnag, pan fydd digwyddiad yn cael ei drefnu, mae gennym brotocol a rhestr wirio yn eu lle ar gyfer trefnwyr digwyddiadau, i sicrhau eu bod yn ystyried ac yn darparu ar gyfer y Gymraeg wrth gynllunio digwyddiadau.

Mae holl Ffurflenni a Dogfennau PCGC y bwriedir eu defnyddio gan unigolion ar gael yn Gymraeg, boed yn gopiâu caled neu'n gopiâu digidol. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig i ni roi cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r adnoddau i staff sy'n rheoli'r gwaith o weinyddu a dosbarthu dogfennau a ffurflenni.

Mae ein negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynllunio ymlaen llaw, ac mae cymorth cyfieithu ar gael i gefnogi ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, os oes angen, cyn unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ateb negeseuon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn Gymraeg os oes angen ateb.

Derbyniwyd un cais i gyhoeddi Gwahoddiadau i Dendro drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2024/25. Derbyniwyd 5 cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ymateb i'r gwahoddiad i dendro hefyd. Cyhoeddwyd dogfennau ymateb yn y Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Safonau 57, 58 a 59.

Darparwyd hyfforddiant i staff caffael, gan roi cyngor i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i asesu a oes angen cyhoeddi gwahoddiad i dendro drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymchwiliad i Wasanaethau Ffôn – CS1040 Tachwedd 2023 i Ionawr 2025

Mae'r gwaith i unioni'r pryderon a godwyd yn ymchwiliad CS1040 bellach wedi dod i ben. Mae rhywfaint o waith yn dal i fod angen cael ei gwblhau, ond rydym wedi dechrau mapio proses i asesu swyddi newydd a gwag, a byddwn yn treialu hyn gyda charfan fach o adrannau yn PCGC cyn ei lansio yn ddiweddarach yn 2025/26.

Pryd bynnag y bydd swydd sy'n gyfrifol am ateb galwadau ar ein prif rif ffôn yn wag, bydd y rôl bob amser yn cael ei hysbysebu fel Cymraeg yn Hanfodol ar lefel 4 neu 5 mewn siarad, deall, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Technoleg Iechyd Cymru (HTW)

Mae HTW yn parhau i weithio'n ddiwyd yn dilyn Safonau Cymraeg yr Ymddiriedolaeth. Mae ganddyn nhw gofnod gweithredu sy'n cael ei ailystyried yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau perthnasol o fewn cwmpas eu sefydliadau.

Y tu allan i'r gofynion rheoleiddio, eleni mae gan HTW pum aelod o staff yn dysgu Cymraeg gyda DysguCymraegCymru ar wahanol lefelau, ac mae HTW wedi croesawu siaradwr Cymraeg rhugl i'r tîm, sy'n ymuno â HTW ar Secondiad o PCGC i lenwi cyfnod mamolaeth.

Mae'r pwyllgor Llesiant Cymdeithasol yn cynllunio mwy o seibiannau coffi rhithwir yn y Gymraeg i helpu i annog aelodau'r tîm i ddefnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg.

Mae sgwrs Teams Cymraeg wedi'i chreu i annog dysgwyr i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.

Dyfodol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth yn glir, a byddwn yn parhau i fod yn ddiwyd wrth wella ein gwasanaethau'n barhaus a dysgu o anghenion ein cleifion a'n rhoddwyr. Mae'n gyfnod cyffrous o newid i'r Ymddiriedolaeth, ac rydym yn wynebu hyn gyda phositifrwydd ac ymrwymiad brwd i weithio gyda'n partneriaid.

Unit 2, Charnwood Court,
Parc Nantgarw, Cardiff, CF15 7QZ

029 2019 6161 | velindre.nhs.wales
